


[LINC CANVA](#)



Cymraeg

(GWCT 2023)

DATBLYGIAD YSGOLGION TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG



(Hywel Dda Primary School, 2025)

TROSOLWG O'R MATER



Dros y degawdau, mae nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol (Williams, ap Gruffydd a Gruffydd Jones, 2024). Er bod llawer o gefnogaeth i'r datblygiad hwn, mae hefyd nifer o bobl sy'n mynegi pryderon am wahanol resymau. Mae'r mater yn ymwneud ag addysg yn eang, ond mae'n benodol yn ymwneud â strwythur a sefydliad ysgolion.

CYFNODAU AMSER ALLWEDDOL



1939 – Agoriad yr ysgol Gymraeg gyntaf

Agorwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf yn Aberystwyth yn 1939 gan Syr Ifan ab Owen Edwards (James, 2026). Gwnaethwyd hyn oherwydd pryderon fod y ffoaduriaid o Loegr yn gwanhau'r Gymraeg yn yr ardal (Gower, 2024). Nid oedd cefnogaeth gan y llywodraeth, felly dim ond saith plentyn oedd yn mynychu, ac roedd yn rhaid talu ffioedd gan ei bod yn ysgol breifat (James, 2026).

1970–1990 – Cyfnod o dwf

Er nad oedd cynnydd enfawr yn y 1970au, roedd y niferoedd yn tyfu'n raddol. Yn y 1980au, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Erbyn y 1990au, roedd sawl sir yn cynnig y Gymraeg fel prif ffrwd. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a roddodd statws cryfach i'r iaith (Jones, 2016).

2000au – Blaenoriaethu addysg Gymraeg

Daeth addysg o dan reolaeth y llywodraeth ddatganoledig, a blaenoriaethwyd addysg cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd polisïau megis *Iaith Pauk* (2003), a oedd yn hyrwyddo dwyieithrwydd (Burrowes et al., 2019).

2010au hyd heddiw – Nod 2050

Yn y 2010au, gosododd Llywodraeth Cymru nod o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2025). Yn 2023, dangosodd data fod tua 891,800 o bobl yn gallu siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae hyn yn dangos ei fod yn agosai i'r 1 miliwn o siaradwyr yn sylweddol iawn. Yn 2021, roedd 440 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, gyda 110,142 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu trwy'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021).

English stream education removed from Ysgol Llangennech

(BBC NEWS, 2017)

ENGHREIFFTIAU

Ysgol Llangennech (2017)

Yn 2017, penderfynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin newid Ysgol Llangennech o ysgol ddwy-ffrwd i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig. Achosodd hyn ddadleuon rhwng gwleidyddion, athrawon, rhieni a'r gymuned (BBC News, 2017). Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, yn ôl y cyfrifiad 'Census'.

Ysgol Llangennech: First minister calls for 'calm'

(BBC NEWS, 2017)

PWY SY’N YMWNEUD?

Cefnogwyr

Mae llawer o rieni yng Nghymru yn cefnogi addysg Gymraeg gan eu bod eisiau i’w plant fod yn ddwyieithog. Mae Mudiad Meithrin yn nodi bod agweddau rhieni a’i theulu’n dod yn fwy cadarnhaol ar ôl i’w plant fynychu addysg Gymraeg (Mudiad Meithrin, 2023). Mae addysg Gymraeg hefyd yn cynnig cyfleoedd ehangach mewn meysydd fel cyfryngau, llenyddiaeth a gwaith proffesiynol (Cyngor Caerdydd, 2026; Gyrfa Cymru, n.d.).

Gwrthwynebwyr

Nid yw pob gwrthwynebiad yn erbyn yr iaith ei hun. Yn aml, mae’n ymwneud â phryderon ymarferol neu wleidyddol. Mae rhai rhieni’n teimlo nad ydynt yn gallu cefnogi gwaith cartref neu gyfathrebu â’r ysgol. Mae eraill yn poeni bod ehangu ysgolion Cymraeg yn arwain at gau neu uno ysgolion Saesneg (Cosslett, 2017)

PAM MAE’R MATER YN CAEL EI HERIO?

O blaid y mater

Mae ymchwil y Senedd yn dangos bod y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi rhoi hwb sylweddol i ysgolion cyfrwng Cymraeg (Bowyer a Dauncey, 2025). Mae’r Bil Addysg arfaethedig hefyd yn ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad teg at addysg Gymraeg, beth bynnag yw eu cefndir (Bowyer a Dauncey, 2024).

Yn erbyn y mater

Mae’r un ymchwil yn tynnu sylw at bwysau ar ysgolion, awdurdodau lleol ac athrawon. Mae prinder athrawon Cymraeg yn broblem sylweddol: yn 2024 roedd 25,115 o athrawon mewn ysgolion awdurdod lleol, gostyngiad o 2.4% ers 2023, sydd yn dangos efallai bod athrawon yn teimlo’n bryderus am y mater ac ei fod wedi mynd mor bell ag ymadael ei swydd (Llywodraeth Cymru, 2025).

Mae pryder hefyd bod y Bil yn gallu drysu rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg fel pwnc. Mae addysg gyfrwng Cymraeg yn golygu bod y rhan fwyaf o bynciau’n cael eu haddysgu trwy’r Gymraeg, tra bod Cymraeg fel pwnc yn digwydd mewn ysgolion Saesneg lle mae’r rhan fwyaf o’r cwricwlwm yn Saesneg (Jones, 2016).

CASGLIAD

Er bod y fater yma wedi cael ei herio am degawdau, fel y dangoswyd trwy'r enghreifftiau megis Ysgol Llangennech a'r pryderon ynghylch prinder athrawon, mae'n amlwg bod datblygiad ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau'n fater dadleuol. Er bod digom o dystiolaeth o fanteision addysg Gymraeg, mae'r heriau ymarferol yn sicrhau bod y drafodaeth yn parhau.

(OPENCLIPART, 2021)



PROFION **PISA**
(MMA, 2022)



(FLATICON, 2024)

TROSOLWG O'R MATER

Cafodd profion PISA eu cyflwyno i asesu sgiliau a gwybodaeth disgyblion 15 oed, sef disgyblion Blwyddyn 10. Cynhelir y profion bob tair blynedd, ac maent yn asesu gallu disgyblion mewn Mathemateg, Darllen a Gwyddoniaeth. Bob cylch, mae un o'r pynciau hyn yn dod yn "barth mawr", sef y prif ffocws ar gyfer y flwyddyn honno. Mae 81 o wledydd yn cymryd rhan, gan gynnwys Cymru, Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon. Prif bwrpas PISA yw galluogi gwledydd i gymharu eu systemau addysg yn fyd-eang (OECD, 2024).

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Gan fod PISA yn digwydd bob tair blynedd, mae sawl carreg filltir bwysig. Yn y 1990au, dechreuodd y syniad o greu prawf rhyngwladol gan fod llywodraethau'n ceisio deall sut roedd gwariant ar addysg yn cyfateb i gyflawniad disgyblion (OECD, 2022). Erbyn 1997, cadarnhawyd y profion, a chynhaliwyd y cylch cyntaf yn 2000. Mae'r profion wedi parhau'n rheolaidd o 2000 hyd 2022 (OECD, 2026).



Mae patrwm clir: Darllen → Mathemateg → Gwyddoniaeth. Felly, yn 2025, Gwyddoniaeth fydd y prif barth. Mae'r cylch hwn yn galluogi llywodraethau i gasglu data manwl ar un maes er mwyn llywio penderfyniadau polisi (NCES, 2022).

PAM MAE'R MATER YN DDADLEUOL?

Mae'n naturiol bod llywodraethau a gweinidogaethau addysg yn cefnogi PISA, gan mai nhw sy'n ei gymeradwyo. Eu prif reswm dros gefnogi'r profion yw'r gallu i gymharu systemau addysg gwahanol, adnabod arferion llwyddiannus a nodi meysydd sydd angen gwella. Yn eu barn nhw, mae hyn yn arwain at ddarparu addysg o ansawdd gwell ac yn helpu ysgolion i ganolbwyntio ar sgiliau allweddol (GOV.UK, 2024).

Mae'r OECD yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio data cadarn i lywio polisiau ac i osod safonau rhyngwladol sy'n galluogi gwledydd i adeiladu systemau addysg teg a chryf (OECD, n.d). Fodd bynnag, mae gwerthoedd a diddordebau'r rhai sy'n cefnogi PISA yn wahanol iawn i'r rhai sy'n ei wrthwynebu. Mae cefnogwyr yn canolbwyntio ar ddata, safonau a chystadleurwydd rhyngwladol. Maent yn gweld PISA fel ffordd o feithrin sgiliau bywyd go iawn, nid dim ond sgiliau academaidd (OECD, n.d).

PAM MAE'R MATER YN DDADLEUOL?

Ar y llaw arall, mae athrawon, undebau, addysgwyr creadigol a beirniaid diwylliannol yn gwrthwynebu PISA am sawl rheswm. Maent yn dadlau bod y profion yn creu diffiniad cul o addysg, gan wneud yn anodd i athrawon wybod beth i flaenoriaethu yn y cwricwlwm. Gan fod canlyniadau PISA yn cael eu hystyried mor ddwys, gall hyn arwain at ffocws anghywir—sef “dysgu i brofi”—yn hytrach na datblygu sgiliau ehangach sy'n berthnasol i fywyd go iawn.

I addysgwyr sy'n gwerthfawrogi creadigrwydd a lles, nid yw PISA yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau. Maent yn dadlau y dylai addysg baratoi plant ar gyfer oedolaeth mewn ffordd gyfannol, ac nad yw profion PISA yn caniatáu hynny (Kordziński, 2024).

ENGHREIFFTIAU

Table 2: UK nations' mean scores in PISA 2022

	Mathematics	Reading	Science
Wales	466	466	473
England	492	496	503
Scotland	471	493	483
Northern Ireland	475	485	488
OECD	472	476	485

	2006	2009	2012	2015	2018	2022
Mathematics	484	472	468	478	487	466
Reading	481	476	480	477	483	466
Science	505	496	491	485	488	473

Yn y cyfamser, mae perfformiad Cymru wedi bod yn destun pryder. Mae sgorau Cymru wedi gostwng yn gyson ers 2018 ym mhob un o'r tri phwnc, ac nid ydynt wedi bod mor isel ers 2006 (Dauncey, 2023). Mae hyn wedi arwain at graffu cynyddol ar ysgolion, athrawon a pholisïau addysg.

PAM MAE'N BWYSIG?

Mae'n hawdd deall y pryder mae athrawon yn ei deimlo pan gyhoeddir canlyniadau PISA. Gall hyn beri iddynt deimlo nad ydynt yn gwneud digon, gan arwain at straen a phryder proffesiynol (Stewart, 2022). Mae'r pwysau i "ddysgu i brofi" yn cyfyngu ar eu rhyddid i addysgu mewn ffyrdd creadigol, yn enwedig yn y flwyddyn mae'r profion yn cael eu cynnal.

Mae'r effaith ar ddisgyblion hefyd yn sylweddol. Mae'r profion yn ychwanegu at y pwysau sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgol, ac mae ymchwil yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn y DU yn ofni methu (Education International, 2019). Gan fod PISA yn cymharu gwledydd, gall disgyblion deimlo nad yw eu cryfderau unigol—megis creadigrwydd neu chwaraeon—yn cael eu gwerthfawrogi.

O safbwynt polisi, mae canlyniadau PISA yn aml yn sbarduno newid cyfeiriad. Gall hyn fod yn fuddiol mewn rhai achosion, ond gall hefyd greu ansicrwydd ac aflonyddwch i ysgolion, athrawon a disgyblion. Mae'r effaith yn ymestyn i lywodraethau, cyllid, hyfforddiant athrawon a chynllunio'r cwriewlwm.



DEALLUSRYWDD ARTIFFISIAL



CASGLIAD

Wrth ystyried yr holl wybodaeth, mae'n amlwg bod PISA yn fater cymhleth sy'n effeithio ar nifer o unigolion mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai yn ei gefnogi'n gryf, tra bod eraill yn ei wrthwynebu'n llwyr. Mae PISA wedi dylanwadu'n sylweddol ar y ffordd y caiff addysg ei darparu, ond mae'n bosibl ein bod weithiau'n rhoi gormod o bwyslais ar ddata ac yn colli golwg ar brofiadau bywyd go iawn sy'n siapia dysgu.

CYFLWYNIAD

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn rhywbeth yr ydym wedi gweld cynnydd ynddo yn y blynyddoedd diwethaf. Mae DA yn newid y ffordd mae disgyblion yn dysgu, athrawon yn addysgu a sut mae ysgolion yn gweithredu. Mae'n offeryn sy'n cael ei ddefnyddio mewn addysg fodern ac mae'n mynd i fod yn aros.



Copilot

Teachable moments for ChatGPT
Instead of an outright ban, schools in India's metropolises are discussing how students and teachers can maximise the use of this generative AI tool

Pupils fear AI is eroding their ability to study, research finds


AI in schools and colleges: what you need to know



(LINKEDIN, 2023; THE EDUCATION HUB, 2025; THE GUARDIAN, 2025; WIKIMEDIA, 2023; INTELOGY, 2025)

DYDDIADAU ALLWEDDOL

HISTORY OF ARTIFICIAL INTELLIGENCE



(LINKEDIN, 2025)

Yn y llun dyma yw'r prif ddigwyddiadau yn y byd DA. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi digwydd yng nghanol y rhain hefyd, ond dyma'r rhai yr ydym yn mynd i ffoeysu arnynt.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Ym 1950, gwnaeth Alan Turing gynnal y 'Turing Test', sef lle gofynnodd y cwestiwn 'A yw peiriannau yn gallu meddwl?' yn yr un modd â bodau dynol. Nod y prawf yw gweithio gyda pheiriant ac un person arall. Bydd y person a'r peiriant yn cael nifer o gwestiynau ac os nad yw'r person arall yn gallu dyfalu mwy na hanner yr amser pa ateb oedd gan y person, ystyrir bod y peiriant â Deallusrwydd Artiffisial. Mae profion gwahanol wedi cael eu cynnal i gyd-fynd â'r prawf hwn, sef y 'Marcus Test', 'Lovelace Test 2.0' a'r 'Reverse Turing Test'. Mae'r rhain yn cael mwy o effaith y dyddiau hyn na'r 'Turing Test' yn 1950, gan fod DA wedi addasu'n sylweddol (Eye on Tech, 2020).

Ym 1956, sef y 'Dartmouth Conference', dyma lle y ganwyd yr ymchwil o fewn y maes yma, sef Deallusrwydd Artiffisial. Fe wnaeth grŵp o wyddonwyr gasglu i ddarganfod a fyddai peiriannau'n gallu gweithio fel bodau dynol (Dartmouth, 2025).

Yn yr 1980au yr unig beth oedd yn gallu chwarae gwyddbwyll oedd pobl, heb sôn am beiriannau. Yn enwedig yn y 1980au, nid oedd neb yn meddwl y byddai peiriant yn gallu trechu person yn y gamp hon. Erbyn 1997, gwnaeth y chwedl yma ddod yn wir. 'Deep Blue' oedd enw'r cyfrifiadur gwyddbwyll ac enillodd gem yn erbyn Garry Kasparov. Roedd hyn yn golygu tyfiant i Deallusrwydd Artiffisial (Chess Terms, n.d).

Os ydym yn gwneud cam nawr i 2022, dyma pryd cafodd ChatGPT ei gyflwyno, ac yn 2023 pan gafodd Copilot ei ryddhau. Mae mwyafrif o'r nodweddion yn debyg rhwng y ddau. Maent yn cael eu rheoli o dan yr un peth, sef OPENAI's GPT, ac mae'r ddau â'r pŵer i roi atebion naturiol sy'n debyg i sut y byddai person yn ateb. Mae'r ddau yn wahanol yn y modd lle mae ChatGPT yn ffocysu ar sgysiau ac mae Copilot yn cael mwy o ddefnydd o ran cynhyrchiant, yn enwedig gyda Microsoft 365 (OneAdvanced, 2024).

Felly erbyn nawr, yn 2026, mae DA yn gallu cael ei ddefnyddio yn y meysydd hyn: addysg, iechyd, diwydiannau creadigol ac offerynnau pob dydd (National Literacy Trust, 2025; GOV.UK, 2025).

Teachers can use AI to save time on marking, new guidance says

(BBC NEWS, 2025)

PAM MAE'R MATER YN DDADLEUOL?

Cefnogwyr

Mae ambell ddysgwyr, addysgwyr a rhiant yn cefnogi DA am ei fod yn rhoi ymateb personol, yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer pob math gwahanol o ddysgu ac mae ar gael trwy'r amser i'w gefnogi. Mae rhieni yn meddwl ei fod yn cefnogi plant o ran dysgu a gwneud tasgau ysgol. Mae nifer yn dweud ei fod yn helpu plant ag anghenion ychwanegol, trwy gynorthwyo'r rhai sydd ddim yn gallu ysgrifennu, neu'r rhai sy'n ddall, ac hefyd plant sydd ddim yn gallu siarad. Mae rhieni yn edrych ar sut mae'n gallu helpu'r bobl o'u cwrmpas, fel athrawon, lle mae DA yn gallu arbed llawer o amser iddynt ar dasgau admin (Gordon, 2024).

Os edrychwn ar y rhai a greodd y fath beth, fel y cwmnïau technoleg, maent yn mynd i fod o blaid y mater gan eu bod yn gallu gweld sut mae'n gallu bod o gymorth i nifer o ddefnyddwyr, gan gynnwys ysgolion. Mae'r cwmnïau hyn yn awyddus i ddatblygu'r defnydd mewn ysgolion ac edrych ar ba offerynnau deallusrwydd artiffisial fydd fwyaf buddiol iddynt. Maent yn buddsoddi cymaint yn y defnydd o DA mewn ysgolion er mwyn helpu athrawon i gynllunio gwersi, edrych ar gynnydd disgyblion ac i gael mynediad at adnoddau effeithiol (McConnon, 2025).

PAM MAE'R MATER YN DDADLEUOL?

Gwrthwynebwyr

O fewn cyd-destun athrawon, mae ambell un yn erbyn y mater gan eu bod yn meddwl ei fod yn fath o dwyll mewn rhyw ffordd. Gwnaeth YouGov gynnal arolwg sy'n dweud bod 44 y cant o athrawon yn teimlo 'nad ydynt yn gwneud eu swydd yn iawn'. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn teimlo ei fod yn rhy hawdd i'w ddefnyddio i'w helpu. Yn ychwanegol, maent yn teimlo eu bod yn colli'r berthynas o fod yn athro (Government Technology, 2025).

PAM MAE'N BWYSIG?

Mae DA o fewn addysg yn newid nifer o bethau pan ddaw i sut mae dysgu yn edrych, sut mae pethau'n gweithio o fewn ysgolion a sut mae unigolion ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Mae pwysigrwydd DA yn effeithio ar addysg, yr ochr gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

I ddechrau gyda'r arwyddocâd i addysg, mae'n gadael i ddisgyblion gael cymorth personol iddyn nhw. Mae'n gallu rhoi cymorth wrth greu tasgau a fydd yn eu helpu gyda'u hastudiaethau. Yn ychwanegol, mae pobl ifanc yn gallu ei ddefnyddio pan nad yw'r athro o gwmpas, felly o gartref ac yn y blaen, ond ni fydd byth yn cymryd lle'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion yn yr ystyr emosiynol (Department for Education, 2025).

Wrth barhau gyda disgyblion a myfyrwyr, mae'n cael effaith bositif ar eu hamser yn yr ysgol gan fod DA yn cael ei deilwra i bob unigolyn yn bersonol. Mae'n dweud bod unigolion yn gallu datblygu eu sgiliau o ran creadigrwydd, chwilfrydedd a meddwl yn feirniadol, gan eu bod yn gallu gofyn pethau i DA efallai na fyddent yn gofyn i'w hathrawon (Smith and Gajjar, 2024). Mae hyn yn arwain at y pwynt nesaf lle mae nifer yn credu y gall DA gymryd y cwlwm emosiynol oddi wrth ddisgyblion a'u hathrawon. Trwy ddefnyddio'r esgus 'na i ofyn i ChatGPT neu Copilot', gall hyn effeithio ar berthynas nid yn unig ag athrawon ond hefyd â phobl eraill o'u cwmpas, gan ei fod yn rhwyddach i ofyn i DA ac nid ydynt yn teimlo fel y cânt eu beirniadu. Ond gall hyn achosi problemau mwy difrifol (Klimova and Pikhart, 2025).

I orffen ar yr effaith ar bobl ifanc, mae'r agwedd o ddefnyddio DA am bopeth yn gallu effeithio ar lefel y gwaith maent yn ei gyflawni, gan ei fod yn rhwyddach iddynt. Mae llen-ladrad yn fater pryderus, gan fod DA â'r nodweddion i wneud gwaith dros unigolion. Nid yw hyn yn berthnasol o fewn ysgolion cynradd ac efallai uwchradd, ond erbyn y brifysgol nid yw hyn yn dderbyniol a bydd yn achosi problemau ynghylch eich perfformiad a'ch cwrs (University of Illinois, 2024).

PAM MAE'N BWYSIG?

Yn gymdeithasol, mae DA yn cael effaith hefyd. Mae'n amlygu'r ffaith nad yw pawb yn gallu cael gafael ar ddyfeisiau, yr we a'r offerynnau eraill sy'n gallu cael eu defnyddio. Mae hyn yn achosi rhaniad rhwng y rhai sy'n cael eu cynnwys a'r rhai sydd methu cymryd rhan (Cacal, 2024). Mae DA yn achosi anghyfarfartaledd pan ddaw i recriwtio am swyddi. Enghraifft o hyn yw yn yr UD, lle gwnaeth DA flaenoriaethu cleifion croen gwyn dros gleifion croen du gan ei fod wedi defnyddio hanes gwariant unigolion yn lle eu hangen meddygol. Mae hyn yn enghraifft o ragfarn glir nad ddylai ddigwydd yn ein byd (Bhatnagar and Gajjar, 2024).

Mae DA yn cael dylanwad ar sut mae polisïau'n newid. Maent bellach yn cael eu dylanwadu gan ddata, sy'n cael sgil-effaith ar y ffordd mae'r llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ar yr hyn sy'n digwydd yn y byd. Mae hyn yn golygu bod cywirdeb a phersonoli yn cael eu cyfleu o fewn gwasanaethau cyhoeddus (Benout, 2024). Mae polisïau wedi newid o fewn addysg fel bod DA yn cael ei integreiddio i sicrhau bod ysgolion yn dal i redeg fel y dylent. Mae'n rhaid sicrhau bod y defnydd o DA yn cael ei wneud yn gywir, fel nad yw gwneud penderfyniadau dynol yn cael ei ddiystyru. O ganlyniad, mae athrawon nawr yn cael addysg ar sut i'w ddefnyddio'n effeithiol ac nid i adael iddo wneud popeth iddynt. Mae'n rhaid i athrawon gyfleu hyn i'r disgyblion fel eu bod yn ei ddefnyddio mewn modd effeithiol hefyd, gan sicrhau bod DA yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, er enghraifft drwy beidio â rhannu manylion personol (Robinson, 2025).

CASGLIAD

Fel sydd wedi cael ei gynnwys yn y darn yma o'r llyfryn, mae'n bwysig ein bod yn gwybod bod datblygiad Deallusrwydd Artiffisial yn cynyddu ac os bydd pawb yn ei ddefnyddio'n ddiogel ni fydd unrhyw broblemau, ond mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried neu gall DA gymryd drosodd.

CASGLIAD Y LLYFR LLYFFION

Wrth edrych ar y ddau ochr i'r stori, mae'r llywodraeth a rheolwyr polisiâu yn gwneud eu gorau i gadw pawb yn hapus, ond nid yw hyn wastad yn bosibl. Mae pob dadl yn cynnwys safbwyntiau dilys ac mae'r tensiwn rhwng y gwahanol farnau hyn yn rhan naturiol o ddatblygiad addysg.

Yng Nghymru, mae dadleuon yn ffurfio'r cwriclewm a'r cyfeiriad y mae polisiâu'n mynd. Gallwn weld bod datblygiad ysgolion Cymraeg yn parhau i sbarduno trafodaeth am bwysigrwydd iaith a hunaniaeth. Mae profion PISA wedi sicrhau bod addysg yn cael ei darparu am y rhesymau cywir ac yn annog gwledydd i adolygu eu systemau. Yn olaf, mae deallusrwydd artifisial wedi sbarduno hyfforddiant ac arweiniad ychwanegol i sicrhau bod ysgolion yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r offerynnau newydd.

Mae'r dadleuon hyn wedi siapia addysg ac yn debygol o barhau i wneud hynny am flynyddoedd i ddod. Maent yn sicrhau bod anghenion pob unigolyn sy'n rhan o'r system yn cael eu cymryd i ystyriaeth, gan wneud addysg yn well ac yn fwy teg. Yn y bôn, ni fyddai addysg fel y mae heddiw pe na bai'r dadleuon hyn wedi bodoli.

RHESTR CYFEIRNODI

@CambridgeWords. (2025). CONTESTED ISSUE collocation | meaning and examples of use. [online] Available at: <https://dictionary.cambridge.org/example/english/contested-issue> [Accessed 7 Jan. 2026].

Benoit, K. (2024). AI and Data Science for Public Policy. LSE Public Policy Review, 3(3). doi:<https://doi.org/10.31389/lseppr.115>.

Bhatnagar, A. and Gajjar, D. (2024). How is artificial intelligence affecting society? [online] POST. Available at: <https://post.parliament.uk/how-is-artificial-intelligence-affecting-society/>.

Bowyer, O. and Dauncey, M. (2024). Welsh Language and Education (Wales) Bill: Bill Summary. [online] Senedd.wales. Available at: <https://research.senedd.wales/research-articles/welsh-language-and-education-wales-bill-bill-summary/>.

Bowyer, O. and Dauncey, M. (2025). Welsh Language and Education Bill: support for the principles but concerns over workforce capacity. [online] Senedd.wales. Available at: <https://research.senedd.wales/research-articles/welsh-language-and-education-bill-support-for-the-principles-but-concerns-over-workforce-capacity/>.

Burrowes, E., Bryer, N., Bryer, H., Campbell, C. and Charles, E. (2019). Ymchwil gymdeithasol Social research Review of the Welsh Language Support Service for Schools. [online] p.15. Available at: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/110701athrawonbroen.pdf> [Accessed 28 Oct. 2025].

Cacal, N. (2024). Unequal Access to AI and Its Cultural Implications. [online] The Modern Scientist. Available at: <https://medium.com/the-modern-scientist/unequal-access-to-ai-and-its-cultural-implications-094Sa8042c91>.

careerswales.gov.wales. (n.d.). Job Information. [online] Available at: <https://careerswales.gov.wales/job-information/articles/welsh>.

Chess.com. (n.d.). Deep Blue - Chess Engines. [online] Available at: <https://www.chess.com/terms/deep-blue-chess-computer>.

Cook, E. (2025). How AI in Assistive Technology Supports Students and Educators with Disabilities - Every Learner Everywhere. [online] Every Learner Everywhere. Available at: <https://www.everylearnereverywhere.org/blog/how-ai-in-assistive-technology-supports-students-and-educators-with-disabilities/>.

Cosslett, R.L. (2017). How sad that English-speaking parents are afraid of their children being taught in Welsh | Rhiannon Lucy Cosslett. [online] the Guardian. Available at: <https://www.theguardian.com/education/2017/jun/22/sad-english-parents-afraid-children-taught-welsh>.

Coughlan, S. (2013). How Pisa became the world's most important exam. BBC News. [online] 27 Nov. Available at: <https://www.bbc.co.uk/news/business-24988343>.

Dartmouth (2025). Artificial Intelligence (AI) Coined at Dartmouth | Dartmouth. [online] home.dartmouth.edu. Available at: <https://home.dartmouth.edu/about/artificial-intelligence-ai-coined-dartmouth>.

Dauncey, M. (2023). How Did Wales Perform in PISA 2022? [online] research.senedd.wales. Available at: <https://research.senedd.wales/research-articles/how-did-wales-perform-in-pisa-2022/>.

Department for Education (2025). AI in schools and colleges: what you need to know – The Education Hub. [online] [Blog.gov.uk](https://educationhub.blog.gov.uk). Available at: <https://educationhub.blog.gov.uk/2025/06/artificial-intelligence-in-schools-everything-you-need-to-know/>.

English stream education removed from Ysgol Llangennech. (2017). BBC News. [online] 18 Jan. Available at: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-west-wales-38668914>.

Eye on Tech (2020). What is a Turing Test? A Brief History of the Turing Test and its Impact. YouTube. Available at: <https://www.youtube.com/watch?v=4VROUIAF2Do>.

Gordon, S. (2024). The One Thing Nearly 9 Out of 10 Parents Are Demanding but Schools Aren't Teaching. Parents. [online] doi:<https://doi.org/10.3389/fpsyg.2024.1363174>%22.

Gov.uk (2024). What is PISA data and how does it measure students' success at school? – The Education Hub. [online] [Blog.gov.uk](https://educationhub.blog.gov.uk). Available at: <https://educationhub.blog.gov.uk/2024/09/what-is-pisa-data-and-how-does-it-measure-students-success-at-school/>.

GOV.UK. (2025). Regulation of AI in Healthcare. [online] Available at: <https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/regulation-of-ai-in-healthcare>.

GOV.WALES. (2021). Schools' census results: April 2021. [online] Available at: <https://www.gov.wales/schools-census-results-april-2021-html>.

GOV.WALES. (2025). School Workforce Census results: as at November 2024 (official statistics) [HTML] | GOV.WALES. [online] Available at: <https://www.gov.wales/school-workforce-census-results-november-2024-official-statistics-html>.

Governmenttechnology.co.uk. (2025). Over 40 per cent of teachers feel like 'cheats' using AI | Government Technology. [online] Available at: <https://www.governmenttechnology.co.uk/news/27082025/over-40-cent-teachers-feel-cheats-using-ai>.

Gower, J. (2024). On being a poet in Wales: Imogen Davies. [online] Nation.Cymru. Available at: <https://nation.cymru/culture/on-being-a-poet-in-wales-imogen-davies/> [Accessed 13 Jan. 2026].

International, E. (2019). PISA results highlight pressures in education systems. [online] Education International. Available at: <https://www.ei-ie.org/en/item/23170:pisa-results-highlight-pressure-in-education-systems>.

James, G. (2026). Welcome | Ysgol Gymraeg Aberystwyth. [online] [Ceredigion.sch.uk](https://www.ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk). Available at: <https://www.ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk/english/welcome.html> [Accessed 13 Jan. 2026].

Jaroslav Kordziński (2024). PISA Test and Education: Are Rankings All We Care About? [online] Holistic News. Available at: <https://holistic.news/en/pisa-test-and-education-are-rankings-all-we-care-about/> [Accessed 18 Jan. 2026].

Jerrim, J. (2023). Were PISA reading scores in Wales as bad as they first seemed? [online] FFT Education Datalab. Available at: <https://ffteducationdatalab.org.uk/2023/12/were-pisa-reading-scores-in-wales-as-bad-as-they-first-seemed/>.

Jones, M. (2016). Welsh-medium education and Welsh as a subject National Assembly for. [online] Available at: <https://senedd.wales/media/1d3glvbm/16-048-english-web.pdf>.

Klimova, B. and Pikhart, M. (2025). Exploring the effects of artificial intelligence on student and academic well-being in higher education: A mini-review. *Frontiers in Psychology*, [online] 16(16). doi:<https://doi.org/10.3389/fpsyg.2025.1498132>.

McConnon, A. (2025). Tech companies supercharge AI in classroom. [online] [Ibm.com](https://www.ibm.com). Available at: <https://www.ibm.com/think/news/tech-companies-supercharge-ai-in-classroom>.

Meithrin, M. (2023). Why choose Welsh-medium education? - Meithrin. [online] Meithrin. Available at: <https://meithrin.cymru/ymuno-a-chyleh/?lang=en>.

National Literacy Trust. (2025). Young people and teachers' use of generative AI to support literacy in 2025. [online] Available at: <https://literacytrust.org.uk/research-services/research-reports/young-people-and-teachers-use-of-generative-ai-to-support-literacy-in-2025/>.

NCES (2018). The PISA Cycle of Assessments. [online] Available at: <https://nces.ed.gov/surveys/pisa/pisa2018/pdf/PISA-Cycle-of-Assessments.pdf> [Accessed 16 Jan. 2026].

NCES (2022). The PISA Cycle of Assessments. [online] Available at: <https://nces.ed.gov/surveys/pisa/pisa2022/docs/PISA-CycleOfAssessments.pdf> [Accessed 16 Jan. 2026].

OECD (2026). PISA 2000 Database. [online] OECD. Available at: <https://www.oecd.org/en/data/datasets/pisa-2000-database.html#data> [Accessed 16 Jan. 2026].

OECD (n.d.). The OECD: Better policies for better lives. [online] OECD. Available at: <https://www.oecd.org/en/about.html>.

OECD (2022). What is PISA?: PISA 2022 Results (Volume I). [online] OECD. Available at: https://www.oecd.org/en/publications/2023/12/pisa-2022-results-volume-i_76772a36/full-report/what-is-pisa_b84730a6.html [Accessed 15 Jan. 2026].

Oneadvanced.com. (2024). ChatGPT vs. Microsoft 365 Copilot - which is right for you? The IT leaders' guide | OneAdvanced. [online] Available at: <https://www.oneadvanced.com/resources/chatgpt-vs.-microsoft-365-copilot---which-is-right-for-you-the-it-leaders-guide/>.

Organisation for Economic Co-operation and Development (2024). PISA: Programme for International Student Assessment. [online] OECD. Available at: <https://www.oecd.org/en/about/programmes/pisa.html>.

Packer, R. (2025). Welsh medium education in south east Wales, 1949-1962. [online] University of South Wales . Available at: <https://pure.southwales.ac.uk/en/studentTheses/welsh-medium-education-in-south-east-wales-1949-1962/>.

Pare Cenedlaethol Eryri. (2026). Syr Ifan ab Owen Edwards | Pare Cenedlaethol Eryri. [online] Available at: https://eryri.llyw.cymru/darganfod/diwylliant-iaith-a-chymuned/pobol-eryri/syr-ifan-ab-owen-edwards/?switched=1&_gl=1 [Accessed 13 Jan. 2026].

Popenici, S.A.D. and Kerr, S. (2017). Exploring the Impact of Artificial Intelligence on Teaching and Learning in Higher Education. Research and Practice in Technology Enhanced Learning. [online] 12(1), pp.1–13. doi:<https://doi.org/10.1186/s41039-017-0062-8>.

Robinson, A. (2025). Integrating AI in Schools: New Policy Template Available. [online] Swgfl.org.uk. Available at: <https://swgfl.org.uk/magazine/integrating-ai-in-schools-new-policy-template-available/>.

Smith, B. and Gajjar, D. (2024). Artificial intelligence: education and impacts on children and young people. [online] POST. Available at: <https://post.parliament.uk/artificial-intelligence-education-and-impacts-on-children-and-young-people/>.

Stewart, W. (2022). 'It is ridiculous that Pisa is now making teachers anxious'. [online] Tes Magazine. Available at: <https://www.tes.com/magazine/archive/it-ridiculous-pisa-now-making-teachers-anxious> [Accessed 18 Jan. 2026].

University of Illinois (2024). AI in Schools: Pros and Cons. [online] College of Education. Available at: <https://education.illinois.edu/about/news-events/news/article/2024/10/24/ai-in-schools--pros-and-cons>.

Welsh Government (2024a). Cymraeg 2050: Welsh language strategy action plan 2024 to 2025 [HTML] | GOV.WALES. [online] www.gov.wales. Available at: <https://www.gov.wales/cymraeg-2050-welsh-language-strategy-action-plan-2024-2025.html>.

Welsh Government (2024b). Welsh Language Data from the Annual Population Survey: October 2022 to September 2023 | GOV.WALES. [online] www.gov.wales. Available at: <https://www.gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-october-2022-september-2023>.

Williams, L.J. and Britain., G. (1985). Digest of Welsh Historical Statistics. Gov. Wales.

Williams, S.L., ap Gruffydd, G.S. and Gruffydd Jones, E.H. (2024). The Development of Welsh Language Education since Devolution. Cylchgrawn Addysg Cymru / Wales Journal of Education, 26(2). doi:<https://doi.org/10.16922/wje.26.2.6eng>.

www.cardiff.gov.uk. (2026). Benefits of Welsh-Medium Education. [online] Available at: <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/welsh-medium-education/Pages/default.aspx>.

Ysgol Llangennech: First minister calls for 'calm'. (2017). BBC News. [online] 14 Feb. Available at: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-38972681>.